# Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Cyfarfod 16

## Y Drenewydd, 28 Ionawr 2016

**Yn Bresennol:** Liz Howe, cyd-gadeirydd (CNC); Stephen Bladwell, cyd-gadeirydd (RSPB Cymru); Sean McHugh, Ysgrifenyddiaeth (PBC); Steve Lucas (Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod) Lizzie Wilberforce (Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru/Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru); Russel Hobson (Butterfly Conservation Cymru); Clare Dinham (Buglife); Genevieve Dalley (Cymdeithas Gweision y Neidr Prydain); Ray Woods (Cymdeithas Fotaneg Ynysoedd Prydain/Cymdeithas Cen Prydain); Tracey Lovering (Plantlife Cymru - Swyddog Planhigion Is a Ffyngau); John Wilkinson (Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid); Hannah Shaw (Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw); Matthew Ellis (CNC - dros y ffôn)

**Ymddiheuriadau:** Liz Halliwell (CNC); Jean Matthews (CNC); Sam Bosanquet (CNC/Cymdeithas Mwsoglegol Prydain); Siân Whitehead (CNC); Geoff Hobbs (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr); Colin Cheesman (Plantlife Cymru); Sinead Lynch (Ymddiriedolaeth Gwarchod Gwenyn Gwyllt); Sara Bird (Sŵ Caer)

| Rhif | Diweddariad/Cam Gweithredu | Gan Bwy/Erbyn Pryd | Sylwadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| 1 | Diweddariadau gan bartneriaid<br><br>Bydd aelodau o'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau'n anfon eu diweddariadau'n electronig. Bydd diweddariadau'n cael eu hychwanegu at wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (gweler tudalen y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau).<br><br>Bydd Sean yn rhoi'r diweddariadau ar wefan y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau. | Pawb<br><br>Sean McHugh | Gwefan y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau: [http://www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Arbenigol-ar-Rywogaethau](http://www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Arbenigol-ar-Rywogaethau)<br><br>Nid yw tudalen we'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau wedi cael ei diweddaru ers mis Rhagfyr 2014, felly fe fyddai'n ddefnyddiol cael diweddariad newydd. |
| 2 | **Adroddiad Cyflwr Natur II**<br>Bydd yr adroddiad yn cynnwys prif adran ar statws natur y DU ac adroddiad ar y gwledydd unigol. Bydd yr adroddiad ar Gymru'n ymgorffori setiau ychwanegol o ddata, ac o'r herwydd fe fydd yn dangos rhagor o dueddiadau ledled Cymru nag a oedd adroddiad gwreiddiol 2013. Nid oes dyddiad ar gyfer lansio'r | | **Cefndir**<br>Yn 2013, cafodd Adroddiad Cyflwr Natur fod niferoedd 60 y cant o rywogaethau'r DU a astudiwyd wedi dirywio yn y degawdau diwethaf.<br><br>Yn 2015, cyhoeddwyd prosiect 'Ymateb dros Natur', a oedd yn amlinellu set o gamau gweithredu roedd y tîm |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | adroddiad wedi'i gadarnhau hyd yn hyn.<br><br>Gofynnodd Ray Woods a oedd Cymdeithas Fotaneg Ynysoedd Prydain a Chymdeithas Cen Prydain wedi cymryd rhan. Cadarnhaodd SB eu bod wedi cael cymryd rhan trwy gysylltiadau canolog y DU.<br><br>Adroddiad Comisiwn y Gyfraith<br>Yn ddiweddar, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi adroddiad terfynol a Bil drafft ar Gyfraith Bywyd Gwyllt (Cymru a Lloegr). Ynddo maen nhw'n argymell bod y clytwaith o ddeddfwriaethau bywyd gwyllt yn cael ei ddisodli gan un statud. Yn eu barn nhw, byddai'r statud newydd yn cyfuno'r gyfraith sy'n llywodraethu'r gwaith o warchod a rheoli bywyd gwyllt, er mwyn ei gwneud yn fwy cyson ac yn haws ei deall a'i defnyddio. Mae rhai o'u hargymhellion, a oedd yn gysylltiedig â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol ac a gyhoeddwyd mewn adroddiad ar wahân ym mis Chwefror 2014, wedi'u gweithredu yn Neddf Seilwaith 2015. Bydd Llywodraeth y DU yn ymateb i ganfyddiadau Comisiwn y Gyfraith, a bydd y cylchlythyr hwn yn rhoi diweddariadau ar ddatblygiadau yn y dyfodol.<br><br>Nododd Stephen a Liz fod trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a DEFRA yn mynd rhagddynt, ac mae'n annhebygol y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ymateb cyn y refferendwm dros aelodaeth o'r UE. | Bydd Stephen yn anfon cyswllt Cymdeithas Fotaneg Ynysoedd Prydain y DU at Ray. | prosiect wedi'u nodi er mwyn atal y dirywiad.<br>Cewch ddarllen adroddiad Ymateb dros Natur Cymru yma.<br>Ceir yr adroddiadau ar gyfer yr holl wledydd datganoledig yma.<br><br>Dolen i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith: http://www.lawcom.gov.uk/project/wildlife-law/<br><br>Dolen i'r ymgynghoriad am y cod ymarfer drafft ar gyfer darpariaethau rheoli rhywogaethau yng Nghymru: http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/code-of-practice-species-contol/?skip=1&lang=cy<br><br>Dolen i'r Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau ar gyfer ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol: http://www.nonnativespecies.org/news/index.cfm?id=147 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | **Cyfarfod Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**<br><br>Roedd cyfarfod diwethaf cadeiryddion y grŵp ym mis Mehefin 2015, ac ni chynhaliwyd cyfarfod yn y cyfamser.<br><br>***Cywiriad - Cynhaliwyd cyfarfod Cadeiryddion WBP ym mis Hydref 2015 - mae camau gweithredu'r cyfarfod ar gael ar wefan WBP*** [http://www.biodiversitywales.org.uk/Ecosystem-Group-Chairs](http://www.biodiversitywales.org.uk/Ecosystem-Group-Chairs)<br><br>Mae grwpiau ecosystemau'n parhau i gwrdd â llywodraethwyr y Cynllun Adfer Natur, a bydd Fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn dylanwadu ar waith y grwpiau ecosystemau a grwpiau arbenigwyr rhywogaethau yn y dyfodol.<br><br>Diweddariad **Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru** (Steve Lucas)<br><br>Gwnaeth Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru gwrdd â mi yn ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2015. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle da i weld y drafft diweddaraf o'r Cynllun Adfer Natur, sydd bellach wedi cael ei lofnodi gan y Gweinidog, ac fe gyhoeddwyd rhannau i) a ii) ar 23 Rhagfyr. Mae'r Cynllun Adfer Natur yn cynnwys tair adran: i) amlinelliad o'r strategaeth; ii) cynllun gweithredu; iii) fframwaith llywodraethu. Mae gwaith ar rannau ii) a iii) yn mynd rhagddo, ac mae cyfle i ddylanwadu ar y camau gweithredu a'r broses lywodraethu. Bydd cymryd y | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Bydd Steve Lucas yn anfon Cynllun Adfer Natur at Sean i'w ddosbarthu (cwblhawyd). | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Dolen i ddiwygiadau i Fil yr Amgylchedd: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12572 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | camau gweithredu cywir yn hanfodol.<br><br>Nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru.<br><br>Noder: Mae nifer o grwpiau tasg a gorffen ar waith: Tystiolaeth a Monitro; Grŵp Ymgysylltu; Cynllun Datblygu Gwledig – nid yw'r Grŵp Llywodraethu wedi cwrdd hyd yn hyn<br><br>Cynrychiolwyr Cyrff Anllywodraethol yng nghyfarfodydd Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru (*Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod; Butterfly Conservation Cymru; Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt; RSPB) – rôl ddylanwadol a chynghorol i Lywodraeth Cymru ar faterion ynglŷn â bioamrywiaeth.*<br><br>**Bil yr Amgylchedd** (Steve Lucas) Cynhaliwyd darlleniad Cam 3 o'r Bil ar 26 Ionawr. Pleidleisiwyd o blaid y rhan fwyaf o'r diwygiadau. Mae WEL wedi gweithio'n galed ar y Bil ynglŷn â materion megis gonestrwydd, tryloywder, a chynnydd Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol; cryfhau'r Ddyletswydd Fioamrywiaeth a fydd bellach yn gysylltiedig â rhestr Adran 7 (Adran 42); a mabwysiadu'r egwyddor ragofalus. Oherwydd anomaledd, nid yw'r diffiniad o fioamrywiaeth a geir yn y Bil yn cyd-fynd â diffiniad Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol. Ymroddodd y Bil i gynhyrchu canllawiau ar yr egwyddor ragofalus a'r Ddyletswydd Fioamrywiaeth. Bydd Datganiadau Ardal yn cynnwys Cymru gyfan (hyd at bellter o 12 | | **Cefndir ar Rywogaethau â Blaenoriaeth a rhestrau o gynefinoedd**<br>Adwaenir y set gyntaf o restrau fel Rhestr Adran 74; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | milltir forol o'r arfordir).<br><br>Cafodd y diwygiad yn ymwneud â'r geiriad ar yr egwyddor ragofalus ynglŷn â 'dirywiad amgylcheddol' ei newid i 'arwyddocaol', i gyd-fynd â deddfwriaeth Ewropeaidd a domestig.<br><br>Bydd rhaid i'r ardoll ar fagiau plastig fynd i achosion amgylcheddol da yng Nghymru (wrth barchu trefniadau sy'n bodoli eisoes).<br><br>Noder bod yr holl ddiwygiadau a restrir uchod yn ddarostyngedig i'r broses graffu, a chynhelir pleidlais drostynt yn y Senedd yn gynnar ym mis Chwefror. Bydd y bil wedyn yn mynd yn ei flaen i Gam 4 (mae'n bosibl y bydd rhai man addasiadau) yn barod i dderbyn Cydsyniad Brenhinol yng ngwanwyn 2016.<br><br>**Dangosyddion Bioamrywiaeth**<br>Mae Cymru yn datblygu set o ddangosyddion bioamrywiaeth. Nid oes cyfeiriad clir wedi dod i'r amlwg ynglŷn â'r fformat eto, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt. O ran Rhestr Adran 7 (Adran 42), bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r rhestr gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau arbenigwyr. Yn y lle cyntaf, bydd yr hen Restr Adran 42 yn cael ei throsglwyddo i Restr Adran 7, ac wedyn cael ei hadolygu. Yn ogystal, mae angen set o ddangosyddion ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys dangosydd 'ecosystem iach' a dangosydd bioamrywiaeth amgylcheddau naturiol, ar gyfer mesur yr | | cafodd hon ei diwygio yn 2006 ac fe adwaenid fel Rhestr Adran 42. Pan fydd Bil yr Amgylchedd yn dod i rym, adwaenir Rhestr Adran 42 fel Rhestr Adran 7 yn y lle cyntaf, ac yma fe fydd yn cael ei hadolygu.<br><br>Y Pumed Adroddiad Cenedlaethol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol – Dolen y Deyrnas Unedig: https://www.cbd.int/doc/world/gb/gb-nr-05-en.pdf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | amcanion llesiant. Mae hefyd dangosyddion bioamrywiaeth sy'n nodi tueddiadau cyffredinol. Gallai Cymru ddatblygu ei set ei hun o ddangosyddion, neu addasu dangosyddion y DU.<br><br>Mae Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur, Canolfan Ecoleg a Hydroleg a'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol hefyd yn datblygu dangosyddion, fel y mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg, ar gyfer yr Adroddiad Cenedlaethol ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Mae'n bosibl hefyd y gall dangosyddion y rhaglen fonitro a gwerthuso Glastir gael eu mabwysiadu er mwyn creu set o ddangosyddion amgylcheddol. Mae gan y Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen Gwella Tystiolaeth y mae ei waith hefyd yn ystyried dangosyddion. Mae cryn orgyffwrdd, ac mae nifer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal – a bydd gennym olwg gliriach yn y misoedd nesaf.<br><br>Gwnaeth Steve Lucas hefyd sôn am adroddiad y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014 – y pumed adroddiad cenedlaethol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol:<br>Y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi cyd-destun defnyddiol a gwaelodlin.<br><br>Mae gan y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau rôl glir i'w chwarae wrth fwydo i mewn i'r gwaith ar ddangosyddion, ond enwedig ynglŷn â'r Rhestr Adran | Bydd Liz Howe yn dosbarthu'r papurau cefndirol (Adran 74) a ddefnyddiwyd yng ngweithdy Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (cwblhawyd).<br><br>Bydd Stephen yn anfon CD-ROM o'r adolygiad o rywogaethau yng Nghymru at Steve Lucas – mae'n bosibl y bydd Steve Lucas yn gallu agor y CD gan nad yw gliniaduron modern yn adnabod y fformat.<br><br>Bydd Stephen yn dosbarthu papur Adran 42. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 7 newydd. Bydd gwaith y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau o gefnogi cynlluniau cofnodi hefyd yn werthfawr.<br><br>Gwnaeth Liz sôn am y gweithdy yng Nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a oedd yn edrych ar ddarpariaeth ar gyfer rhywogaethau sydd â blaenoriaeth, yn y rhestr newydd o flaenoriaethau, yn ogystal â'r cyd-destun ar gyfer y rhestr o rywogaethau sydd â blaenoriaeth.<br><br>Bydd Archwiliad Rhywogaethau 2003 a gynhaliwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer y gwaith uchod.<br><br>Bydd Stephen yn ymchwilio i waith Lloegr wrth ddewis y meini prawf ar gyfer rhestr Adran 41 (sy'n gyfatebol i Restr Adran 42 Cymru) a dosbarthu'r papur os yw ar gael. | | |
| **4** | **Bylchau Tystiolaeth**<br><br>Mae'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau'n cael ei annog i lenwi bylchau tystiolaeth, ac yn benodol i ychwanegu at gynigion prosiect (anfonwch nhw at Alys Morris) gan gynnwys prosiectau adolygu deunydd ysgrifenedig (mae templed ar y wefan). Mae prosiectau partneriaeth a chydweithrediadau hefyd yn cael eu hannog yn gryf iawn. Mae'r | Bydd pawb yn ychwanegu bylchau rhywogaethau a chynigion prosiect. | Prosiect Bylchau Tystiolaeth http://www.biodiversitywales.org.uk/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth-PBC<br><br>Prosiect Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar LinkedIn: https://www.linkedin.com<br><br>Manylion cyswllt Alys Morris: MorrisA18@cardiff.ac.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | prosiect wedi magu momentwm, ac mae bellach yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae sefydliadau academaidd/myfyrwyr wedi mynd i'r afael â nifer o brosiectau – cyfanswm o tua deg prosiect. Hefyd, bydd yn ddefnyddiol ar gyfer prosiectau Cymru fel rhan o gyllid ymchwil DEFRA. Gall y prosiect Pryfed Peillio hefyd fwydo i mewn i ymchwil i bryfed peillio.<br><br>Mae gan Gyd-bwyllgor Gwarchod Natur hwylusydd a leolir yng Nghaerdydd (Kate Orford), sy'n cysylltu ymchwil Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru â'i gilydd.<br><br>Mae Grŵp Bylchau Tystiolaeth ar LinkedIn, lle y gallwch drafod materion, a gallwch hefyd gysylltu â Mike Bruford, sy'n chwarae rhan bwysig yn y prosiect (mae ei fanylion cyswllt ar wefan Bylchau Tystiolaeth).<br><br>Bydd Steve Lucas yn anfon manylion y prosiect at brif swyddfa Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod. | Bydd Liz Howe yn dosbarthu manylion cyswllt Russel Kate (cwblhawyd). | |
| | | | |
| **5** | Cynllun gwaith/adolygiad o aelodaeth y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau. | Bydd Sean yn cysylltu ag aelodau o'r grŵp nad ydynt yn mynychu'r cyfarfodydd fel arfer, a gofyn iddynt gymryd rhan yn y grŵp fel aelod craidd neu fel aelod gohebu.<br><br>Bydd Sean yn cysylltu ag Ymddiriedolaeth Bywyd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynllun gwaith**<br>Mae'r cynllun gwaith yn dod i ben ym mis Chwefror 2016, felly mae angen cynllun newydd. Mae syniadau'n cynnwys datblygu Rhestr Adran 7 o rywogaethau; gwaith ar integreiddio cynefinoedd rhywogaethau; cyfansoddi adolygiad blynyddol o rywogaethau yng Nghymru sy'n amlinellu camau gweithredol allweddol ar gyfer cyrff anllywodraethol a chyrff statudol, yn ogystal ag unrhyw fylchau; mewnbwn i Fil yr Amgylchedd; mewnbwn i brosiect Glastir; mewnbwn i waith grantiau – byddai'n ddefnyddiol monitro allbwn grantiau amgylcheddol Llywodraeth Cymru, hynny yw, beth yw'r effaith ar rywogaethau. | Gwyllt Vincent (Natalie) a gofyn a hoffai gymryd rhan gyda'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau.<br><br>Bydd Sean yn drafftio cynllun gwaith i'w gymeradwyo mewn cyfarfod yn y dyfodol (cyfarfod gaeaf 2016). | |
| **6** | UNRHYW FATERION ARALL<br><br>Dywedodd Liz Howe fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cau rhai swyddi rhanbarthol, e.e. y Drenewydd. Bydd adnoddau llyfrgelloedd yn cael eu categoreiddio a bydd rhai'n cael eu digideiddio a'u storio'n ganolog ym Mangor. Mae cynnwys newydd yn cael ei ychwanegu i lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru ar brif wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur ar y gwaith o ddiweddaru canllawiau ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Lloegr Naturiol yn arwain y ffordd ar blanhigion fasgwlaidd ac | | Dolen i'r adolygiad pum mlynedd: [http://jncc.defra.gov.uk/page-6194](http://jncc.defra.gov.uk/page-6194) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | infertebratau, gyda mewnbwn gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau gwledig eraill. Bydd yr adolygiad hefyd yn cynnwys cynefinoedd.<br><br>Y chweched adolygiad pum mlynedd – bydd yr adolygiad yn rhoi sylw i rywogaethau Atodlen 5 ac Atodlen 8 yn Neddf Bywyd Gwyllt a'r Cefn Gwlad. Anfonwyd y gwaith papur i DEFRA – roedd yr adolygiad mwyaf diweddar yn canolbwyntio ar wneud y rhestr yn fwy perthnasol.<br><br>Canllawiau ynglŷn â'r Fadfall Ddŵr Gribog – Mae Treftadaeth Naturiol yr Alban yn edrych ar y canllawiau yn seiliedig ar ddrafft ar gyfer y DU o bum blynedd yn ôl. Mae'n bosibl y bydd Cymru'n ei dilyn. Mae Tasglu'r Fadfall Ddŵr Gribog DEFRA yn edrych ar oblygiadau'r ddeddfwriaeth ar liniaru a mesurau digolledu, ac yn cynnal rhaglen beilot ddrafft gyda Chyngor Woking. Un syniad yw ychwanegu safleoedd lliniaru at ei gilydd yn seiliedig ar y cynllun gofodol yn hytrach na lliniaru ar gyfer safleoedd unigol. Mae Liz Howe a Matthew Ellis yn rhan o Dasglu'r Fadfall Ddŵr Gribog DEFRA.<br><br><br>Nododd Ray Woods bwysigrwydd yr arbenigedd rheoli tir a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru i dirfeddianwyr, yn enwedig cyngor ynglŷn â Glastir. Fe wnaeth gydnabod bod toriadau staff yn golygu bod staff Cyfoeth Naturiol Cymru'n cael eu hailgylchu mewn meysydd nad ydynt yn arbenigo ynddynt. Gallai grwpiau arbenigwyr rhywogaethau chwarae rôl mewn hyfforddiant, | Bydd Sean yn cyfeirio Ray at Holly.<br><br><br>Bydd Stephen yn dosbarthu'r templed er mwyn i'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau wneud sylwadau.<br><br>Bydd Steve Lucas yn anfon y data ar ystlumod at Stephen. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ond byddai'n rhaid talu eu treuliau.<br><br>System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth – Mae Holly York (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) yn gallu cynnig hyfforddiant System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.<br><br>Mae Stephen yn llunio templed i ddarparu asesiad statws ar gyfer rhywogaethau (rhestr goch; meini prawf goleuadau traffig; asesiad arbenigol), ac mae wedi gweithio trwy'r rhestr o adar. Mae'r templed yn cynnwys affinedd cynefinoedd (mathau mwyaf eang o gynefinoedd a chynefinoedd â blaenoriaeth), ac mae'n ychwanegol i'r gwaith ar integreiddio cynefinoedd rhywogaethau. Mae angen mewnbwn ynglŷn â sut rydym yn dod â'r data at ei gilydd er mwyn cynhyrchu asesiad cyffredinol. Dichon mai graffig syml fyddai'r ffordd orau, ond croesawir awgrymiadau. Byddai asesiad risg sy'n cynnwys rheoli risg ac ymyriadau penodol ar gyfer rhywogaethau penodol (nas cynhwysir mewn gwaith ar integreiddio cynefinoedd rhywogaethau) yn ddefnyddiol.<br><br>At ei gilydd, bydd y gwaith yn creu datganiad ar y rhywogaethau hynny sydd mewn perygl, a gallai ei hidlo er mwyn amlygu rhywogaethau â blaenoriaeth. | Gall grŵp gorchwyl a gorffen y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau wneud hyn trwy e-bost ac wedyn trwy gyfarfod V/C. | |
| **Eitemau Sefydlog** | | | |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br>Bydd y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau'n cwrdd ar 24 Mai yng Nghwm Elan. Fformat – | Bydd Hannah yn cysylltu â Chanolfan Cwm Elan a thrafod y trefniadau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfarfod byr yn y bore ac wedyn ymweliad maes. | | |
| Eitemau a chamau gweithredu parhaus | | | |
| i | Bydd pob partner yn anfon diweddariad byr ar y prosiectau maent yn rhan ohonynt i'w ddosbarthu i'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau. Gellir hefyd gynnwys diweddariad parhaus ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru o dan adran y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau. | Pawb/diwedd mis Chwefror 2016 | Dolen i dudalen Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/Species |
| ii | System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth<br>Mae System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth 2 bellach yn fyw – mae'n dangos gweithrediadau mewn modd gofodol sy'n hawdd ei ddefnyddio. Mae mapiau blaenoriaeth gan grwpiau ecosystemau ar gael ar System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth. | Anogir pawb i ymweld â'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth newydd ac edrych am gyfleoedd i roi mewnbwn/gwneud sylwadau. | Dolen i System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth a gwybodaeth bellach: http://www.biodiversitywales.org.uk/System-Adrodd-am-Weithredu-Bioamrywiaeth-BARS-<br><br>Dolen i fapiau blaenoriaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: http://www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Arbenigol-ar-Rywogaethau |